agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
hiw Healthcare Inspectorate Wales

Galw Iechyd Cymru

Adolygiad o Gynnydd yn erbyn Safonau Gofal Iechyd Cymru – 1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth 2007

Hydref 2007

Cynnwys

		Rhif y dudalen
1.	**Cyflwyniad a Chyd-destun**	**1**
2.	**Proses Asesu 2006-07**	**5**
3.	**Trosolwg o Alw Iechyd Cymru**	**9**
4.	**Canfyddiadau**	
	▪ Profiad y Claf	**11**
	▪ Canlyniadau Clinigol	**21**
	▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	**25**
	▪ Iechyd y Cyhoedd	**39**
5.	**Y Camau Nesaf**	**43**

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o'r Lefelau Aeddfedrwydd	**45**
Atodiad 2: Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon	**47**
Atodiad 3: Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Lefel Gorfforaethol, y Lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr	**55**
Atodiad 4: Rhestr Termau	**57**

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Cyflwynir yn yr adroddiad hwn ganfyddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sydd wedi bod wrthi'n profi a dilysu hunanasesiad 2006-2007 Galw Iechyd Cymru o'i berfformiad yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn gosod fframwaith cyffredin o Safonau Gofal Iechyd i helpu'r GIG a sefydliadau sy'n bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon a safonol ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u llunio i wella'r lefelau gofal a thriniaeth y mae hawl resymol gan bobl Cymru eu disgwyl. Felly, byddant yn sylfaen y gall cyrff gofal iechyd adeiladu arni er mwyn cyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a amlinellir yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, *'Cynllun Oes'.* Mae'n ofynnol i'r holl gyrff gofal iechyd[1] yng Nghymru ystyried y safonau wrth iddynt ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, ym mhob math o leoliad.

1.4. Cyflwynir yn *Safonau Gofal Iechyd Cymru* 32 o safonau o dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a dylai'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd fod yn seiliedig arnynt. Mae pob safon o fewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn seiliedig arnynt.

- Mae'r maes cyntaf *'Profiad y Claf'* yn cyflwyno:

  safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn

[1] Diffinnir cyrff gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a chyrff ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr y gwasanaeth a'r cyhoedd.

canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau cleifion unigol. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes *'Canlyniadau Clinigol'* yn cadarnhau y bydd:

y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth gwaith ymchwil a gaiff ei asesu'n briodol ac yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes *'Llywodraethu Gofal Iechyd'* yn nodi'n eglur y bydd:

gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau yn eu lle sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd arferion gwaith yn eu lle i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes *'Iechyd y Cyhoedd'* yn nodi y bydd:

cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiaeth

1.5. Ers Ebrill 2007, mae'n ofynnol i gyrff gofal iechyd y GIG yng Nghymru gyflawni hunanasesiadau yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol ynghylch eu perfformiad.

1.6. Mae'n ofynnol i gyrff gyflwyno'u datganiad a'u hunanasesiad yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses o'u profi a'u dilysu, gan ddefnyddio dadansoddiad seiliedig ar risg, yn erbyn ystod o ffynonellau

data. Manylir ar y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn adran nesaf yr adroddiad.

1.7. O Ebrill 2008 ymlaen bydd cydymffurfiaeth â'r Safonau Gofal Iechyd yn cael ei defnyddio hefyd yn sylfaen ar gyfer Datganiadau o Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Bu 2006-2007 yn flwyddyn o ddatblygu gyda phroses asesu newydd yn cael ei datblygu a'i rhoi ar brawf. Rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am gadw at *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn sicr ar ysgwyddau Byrddau'r cyrff gofal iechyd ac yn ategu'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod cyrff gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, a bod y cleifion a'r cyhoedd yn cael mwy o wybodaeth am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicaf oll am y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â chyrff gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel benodol:

- *Corfforaethol* – pa mor llwyddiannus yw'r Byrddau o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau?
- *Gweithredol/Canlyniadau Clinigol* – sut y sicrheir cydymffurfiaeth â'r safonau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*[2] – sut brofiad a gaiff y defnyddiwr ac a yw'n gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon, ac maent wedi'u datblygu'n offeryn asesu sydd ar gael ar y we. Gellir cwblhau hunanasesiadau ar-lein a llwytho tystiolaeth ddogfennol i fyny i ategu'r atebion a roddwyd yn erbyn pob cwestiwn. Ategir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n rhoi arweiniad defnyddiol ar ofynion y 32 safon.

2.4. Gofynnwyd i gyrff asesu eu cynnydd o ran sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrics aeddfedrwydd. Mae'r matrics

[2] Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd defnyddir y term 'defnyddiwr' i olygu cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a staff.

aeddfedrwydd yn caniatáu i gyrff asesu eu perfformiad ar y lefel gorfforaethol, ar y lefel weithredol ac ar lefel profiad y defnyddiwr ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Ceir diffiniad o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. A hithau'n flwyddyn o ddatblygu bu'n rhaid i gyrff y GIG fodloni rhai amserlenni cyfyng a gofynnwyd iddynt gyflwyno'u hunanasesiadau gorffenedig i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl rhyddhau'r offeryn asesu. Llwyddodd Galw Iechyd Cymru i gyflwyno'i hunanasesiad erbyn y dyddiad hwnnw, a dymunwn gydnabod holl waith, ymdrech ac ymrwymiad y corff i sicrhau bod yr hunanasesiad yn cael ei gyflwyno mewn pryd.

Profi a Dilysu

2.6. Aeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ati i brofi a dilysu hunanasesiad Galw Iechyd Cymru gan ddilyn y camau hyn:

- *Cam 1* – Gwaith desg gan dîm o adolygwyr cymar a lleyg i ddilysu'r hunanasesiad. Roedd y cam hwn yn cynnwys gwirio a oedd y cwestiynau sy'n ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, sicrhau bod yr ateb wedi'i ategu gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol, a cheisio penderfynu a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y corff.

- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni drwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu'r ymatebion a'r marciau aeddfedrwydd fesul corff a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol o ran sicrhau bod y sgorau'n gyson ac wedi'u safoni.

- *Cam 3* – Ymwelwyd â safleoedd y cyrff i brofi agweddau pwysig ar brofiad y claf/defnyddiwr.

Yr Ymweliad â'r Safle

2.7. Roedd Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe tan 1 Ebrill 2007; ar y dyddiad hwnnw newidiodd y trefniadau a daeth y gwasanaeth yn rhan o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST). Gan fod y corff newydd ddod yn rhan o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r ddau gorff wrthi'n integreiddio prosesau a gweithgareddau, penderfynodd AGIC y byddai'n fwy priodol trefnu cyfarfod ag uwch-aelodau allweddol o'r Ymddiriedolaeth a oedd wedi bod yn rhan o'r broses o baratoi'r ddau gyflwyniad er mwyn profi a dilysu'r wybodaeth a ddarparwyd. Ceisiwyd rhagor o wybodaeth a mwy o eglurder yn ystod y cyfarfod ynghylch yr wybodaeth a geid yng nghyflwyniad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac yng nghyflwyniad Galw Iechyd Cymru.

Yr Uwchgyfarfodydd Gofal Iechyd

2.8. Ym mis Awst, aeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ati i gydgysylltu a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, neu 'Uwchgyfarfodydd Gofal Iechyd'. Roedd y rhain yn gyfle i gyrff adolygu ac archwilio ddod ynghyd i rannu gwybodaeth a chyfrannu at y broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgyfarfodydd hyn yn gam allweddol tuag at sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu ar draws cyrff adolygu a bod cynlluniau archwilio a sicrwydd yn cael eu datblygu ar y cyd.

3. Trosolwg o Alw Iechyd Cymru

3.1. Tan 31 Mawrth 2007 roedd Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Ar 1 Ebrill 2007 newidiodd y trefniadau ac mae'r gwasanaeth bellach yn rhan o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae Galw Iechyd Cymru yn wasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor am iechyd 24 awr y dydd, bob dydd.

3.2. Gall pobl gysylltu â Galw Iechyd Cymru os byddant yn teimlo'n sâl ac yn ansicr beth i'w wneud, neu i gael gwybodaeth am ystod eang o gyflyrau, triniaethau a gwasanaethau iechyd lleol.

3.3. Bydd Atebwyr Galwadau yn ateb galwadau i wasanaeth ffôn Galw Iechyd Cymru a byddant yn nodi manylion personol, pan y'u rhoddir, a'r rhesymau dros ffonio. Yn dibynnu ar y rhesymau hynny, gellir trosglwyddo'r galwyr i Nyrs Ymgynghorydd, Ymgynghorydd Gwybodaeth Iechyd, neu Ymgynghorydd Iechyd Deintiol. Ar adegau prysur efallai na fydd yn bosibl siarad ag ymgynghorydd ar unwaith ond byddant yn ffonio yn ôl o fewn tair awr ar amser a gytunir.

3.4. Dim ond ar gyfer ymholiadau gwybodaeth iechyd y bwriadwyd gwasanaeth gwybodaeth gwefan Galw Iechyd Cymru. Bydd ymgynghorwyr gwybodaeth iechyd medrus yn ceisio ateb cwestiynau cleifion o fewn tri diwrnod gwaith a gallant:

- Roi gwybodaeth am gyflyrau sydd wedi'u henwi/diagnosio
- Rhoi manylion am wasanaethau lleol y GIG
- Rhoi gwybodaeth am hawliau cleifion ac am help gyda chostau iechyd
- Cyfeirio pobl at wasanaethau eraill (hy cwnsela, grwpiau cymorth/hunan-gymorth)

Fodd bynnag, ni allant:

- Ymateb i ymholiadau ynghylch diagnosis neu hunanddiagnosis ar gyflwr
- Ymateb i ymholiadau ynghylch triniaeth nad yw'n gweithio
- Argymell triniaethau neu feddyginiaethau

- Ymateb i ymholiadau os yw’r person yn byw y tu allan i’r DU

3.5. Nid yw’r wybodaeth a ddarperir gan wasanaeth y wefan i fod i gymryd lle ymgynghoriad â phroffesiynolyn iechyd â chymwysterau priodol, am na all Galw Iechyd Cymru warantu y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn bodloni anghenion iechyd neu anghenion meddygol y claf.

4. Canfyddiadau – Gan gynnwys meysydd lle ceir Gwelliant ac Arferion Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1
Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1 Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S1.2 Roedd y corff yn gallu dangos bod y Bwrdd Rheoli/Tîm Gweithredol wedi ymrwymo i Gynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd:

- Roedd Galw Iechyd Cymru yn arfer bod yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac felly strategaeth (Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd) yr Ymddiriedolaeth oedd yn pennu cyfeiriad cyffredinol Galw Iechyd Cymru.
- Mae grŵp Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd wedi'i sefydlu (a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig â grŵp yr Ymddiriedolaeth) er mwyn symud yr agenda yn ei blaen ac mae Geithredwr yn gyfrifol am Gynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd.
- Ychwanegwyd at bolisi cwynion Ymddiriedolaeth Abertawe drwy ddatblygu gweithdrefn gwynion leol ar gyfer Galw Iechyd Cymru.
- Bydd aelod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn mynychu cyfarfod pwyllgor llywodraethu clinigol Galw Iechyd Cymru.
- Bydd Galw Iechyd Cymru yn cynnal digwyddiadau 'wynebu'r cyhoedd' lle y caiff adborth anffurfiol ynglŷn â'i wasanaeth.
- Roedd hunanasesiad wedi'i gwblhau yn erbyn Mynegbyst 1 a 2.
- Cyflwynir adroddiadau misol i'r Bwrdd Rheoli ar adborth y defnyddwyr.

Mae'n bwysig bod Galw Iechyd Cymru yn mynd ati fel rhan o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i egluro sut y bydd y strategaeth

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yn gweithio o fewn y corff newydd. Mae'r egwyddor hon yn gymwys hefyd i'r gwaith sydd ei angen i integreiddio polisïau a gweithdrefnau'n effeithiol.

S1.3 Cyflwynwyd tystiolaeth a oedd yn dangos bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion. Er enghraifft, roeddent wedi ymgysylltu â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) i gasglu safbwyntiau ynghylch eu gwasanaeth ac wedi gweithio gyda'r BILlau – y byddant yn darparu gwasanaeth YC y tu allan i oriau a gwasanaeth deintyddol ar eu cyfer – er mwyn cael adborth gan ddefnyddwyr. Caiff adborth uniongyrchol gan alwyr ei fwydo i gronfa ddata electronig. Roedd y gwaith a wnaent o ran cyfeirio achosion amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed, a rhannu gwybodaeth, yn dystiolaeth o weithio ar draws y sectorau gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd tystiolaeth dda ar gael yn dangos bod newidiadau wedi'u gwneud yn sgil y safbwyntiau a gasglwyd.

S1.4 Cytunwn ag asesiad Galw Iechyd Cymru ei fod yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 2
Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;
b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;
c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac
ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.

S2.1. Nododd yr Ymddiriedolaeth yn ei hunanasesiad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S2.2. Mae Galw Iechyd Cymru wedi sefydlu sawl proses i fodloni'r safon hon, er enghraifft:

- Adroddiadau misol i'r Bwrdd a chyfarfodydd cynllunio galluedd wythnosol sy'n dangos faint sy'n gallu cael mynediad at y gwasanaeth ac adroddiad ar dargedau'r cerdyn sgorio cytbwys.
- Meddalwedd Cyfrifiadurol sy'n cynnwys offeryn blaenoriaethu.
- Caiff rhybuddion iechyd eu lledaenu a'u hasesu o ran eu perthnasedd.
- Caiff yr holl wybodaeth a ddefnyddir o fewn y ganolfan alwadau ei hasesu gan ddefnyddio offerynnau gwerthuso ansawdd.
- Caiff yr holl wybodaeth electronig a ddarperir o fewn y galwadau ei rheoli gan grŵp cyfeirio Galw Iechyd Cymru. Defnyddir negeseuon i hysbysu defnyddwyr y gwasanaeth o statws eu galwadau pan fyddant yn ceisio cysylltu â'r gwasanaeth ynghyd â gwybodaeth ynghylch y cyngor sydd ar gael.

S2.3. Mae'r holl safonau sy'n ymwneud â ffynonellau gwybodaeth wedi'u cynnwys yn yr Offeryn Adolygu Nyrsys Cenedlaethol a'r Offeryn Adolygu Gwybodaeth Iechyd a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro trwy adolygiadau rheolaidd o berfformiad ac archwiliadau. Caiff prydlondeb ac effeithiolrwydd darpariaeth y gwasanaeth eu hadolygu'n wythnosol.

S2.4. Mae yna dystiolaeth o arferion da ar draws y corff ond nid oes digon o dystiolaeth o wella parhaus. Oherwydd hynny, ni allwn gytuno â'r asesiad fod y corff yn **Ymarfer** o ran y safon hon a chredwn ei fod yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 3
Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2. Mae Galw Iechyd Cymru wedi cytuno â'i gomisiynwyr y dylai ddilyn safonau tu allan i oriau'r gwasanaeth YC mewn perthynas â chael mynediad at ofal priodol yn brydlon, a chaiff hyn ei fonitro gan y Bwrdd gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio cytbwys

a'r adroddiad misol gweithredol. Caiff y dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â'r amser a gymerir i ymateb i alwadau lle mae 'perygl i fywyd' a galwadau blaenoriaeth uchel hefyd eu monitro trwy'r un dulliau.

S3.3. Caiff perfformiad y corff ei drafod a'i adolygu mewn cyfarfodydd cynllunio galluedd wythnosol sy'n cael eu mynychu gan gynrychiolwyr o bob grŵp staff. Mae perfformiad Galw Iechyd Cymru yn erbyn y safonau a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn dda iawn. Rhoddir gwybodaeth am ei berfformiad i gomisiynwyr a rhanddeiliaid.

S3.4. Cytunwn ag asesiad Galw Iechyd Cymru ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 4
Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;
b. yn parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;
c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; ac
ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

S4.1. Nododd yr Ymddiriedolaeth yn ei hunanasesiad ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Gan fod Galw Iechyd Cymru yn arfer bod yn rhan o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, roedd yn cadw at ei pholisïau a'i gweithdrefnau perthnasol a'r Ymddiriedolaeth hefyd oedd yn darparu'r safleoedd a'r cyfleusterau a ddefnyddiai. Fodd bynnag, y Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am sicrhau bod y corff yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol i hybu diogelwch a phrofiad ei staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd wedi cefnogi canllawiau o ran yr arferion gorau mewn canolfannau galwadau a bydd y Bwrdd Rheoli'n derbyn adroddiadau misol rheolaidd ac argymhellion yn ymwneud â'r amgylchedd.

S4.3. Bydd safleoedd y tair canolfan alwadau yn cynnal gwiriad iechyd a diogelwch blynyddol i sicrhau bod y staff yn gweithio mewn amgylchedd priodol a diogel, a chaiff y staff eu hannog i gynnal asesiadau risg o'r amgylchedd os caiff risgiau penodol eu nodi. Mae prosesau wedi'u sefydlu i alluogi'r staff i adrodd am ddigwyddiadau. Mae nifer o fforymau ar gael lle gall y staff fynegi pryderon. Roedd sawl enghraifft yn y cyflwyniad o newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i adborth.

S4.4. Mae angen i Alw Iechyd Cymru sicrhau bod staff allweddol â chyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yn ymgysylltu'n llawn ag adran iechyd a diogelwch WAST yn ystod y broses drosglwyddo. Mae'n bwysig sicrhau bod strwythurau sefydliadol yn eu lle i alluogi'r staff i gydymffurfio â gofynion diogelwch a bod polisïau a rhaglenni hyfforddi yn cael eu datblygu ar y cyd i reoli materion diogelwch staff.

S4.5. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Datblygu** ar y tair lefel, gan fod camau yn cael eu cymryd ac mae tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff.

Safon 5
Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau sydd:

a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;
b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac
c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.

S5.1. Nododd yr Ymddiriedolaeth yn ei hunanasesiad ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S5.2. Gan na fyddai'r gwasanaeth yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, nododd Galw Iechyd Cymru yn ei gyflwyniad nad oedd y safonau o ran rheoli heintiau a glanweithdra ysbytai yn gymwys iddo. Fodd bynnag, er nad ydynt yn gymwys yng nghyd-destun y cleifion, cydnabuwyd bod angen eu hystyried mewn perthynas â'r staff.

S5.3. Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn bodoli sy'n nodi mai'r Ymddiriedolaeth leol ym mhob ardal fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw tri safle Galw Iechyd Cymru a rhoi cyngor a chymorth iddynt o ran iechyd a diogelwch. Caiff gweithrediad y cytundebau hyn ei fonitro gan y Rheolwr Cyffredinol a'r Gweinyddwr Gwasanaethau Busnes. Mae Galw Iechyd Cymru'n cyflogi contractiwr glanhau annibynnol i ddarparu gwasanaethau glanhau sy'n ddarostyngedig i gytundeb lefel gwasanaeth. Cedwir cronfa ddata o'r holl gytundebau lefel gwasanaeth yn ganolog ar fewnrwyd y corff. Yn rhan o'r broses o drosglwyddo i WAST mae angen adolygu'r trefniadau o ran rheoli safleoedd, a'u cynnal a'u cadw.

S5.4. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Datblygu** ar y tair lefel o ran y safon hon.

Safon 6
Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;
b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac
c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.

S6.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S6.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn gallu profi ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Mae ganddo strategaeth gyfathrebu a luniwyd yn 2006 ond dim ond drafft ydyw. Bydd y gwasanaeth yn cynhyrchu taflenni gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd ac i fodloni ystod eang o anghenion. Mae gwasanaeth ymholi ar-lein ar gael i'w ddefnyddio yn lle'r gwasanaeth ffôn ac mae gwasanaeth tecstio 24 awr ar gael i bobl fyddar. Mae gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft, mewn print mawr, Braille neu ffurf glywedol.

S6.3. Hyrwyddir y gwasanaeth gan ystyried data ystadegol y boblogaeth leol, er enghraifft, mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, mewn rhanbarthau lle na wneir defnydd helaeth o'r gwasanaeth, mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau iechyd gwael a llythrennedd isel, ac mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf. O ganlyniad i adborth defnyddwyr, roedd gwybodaeth ar gael i egluro'r hyn sy'n digwydd pan fydd pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth.

S6.4. Mae nifer o systemau a phrosesau'n bodoli i sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn cael ei darparu, a bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chymeradwyo trwy broses drylwyr gan fwrdd golygyddol. Mae cleifion a phroffesiynolion o bob rhan o'r GIG yng Nghymru yn aelodau o'r grŵp hwn.

S6.5. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y tair lefel, gan fod cynlluniau da ar waith drwy'r corff i fynd i'r afael â'r prif faterion a chan fod tystiolaeth wedi'i chyflwyno o werthuso a gwella parhaus.

Safon 7
Mae'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S7.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn gallu dangos bod yr agenda strategol yn cael ei datblygu. Canolbwynt gwaith a hyfforddiant Galw Iechyd Cymru yw grymuso galwyr i'w galluogi i ofalu amdanynt eu hunain pa bryd bynnag y bydd modd. Mae'r feddalwedd a ddefnyddir yn helpu i 'gyfeirio' pobl er mwyn sicrhau'r canlyniad mwyaf priodol. Mae ystod o systemau ar waith i rymuso galwyr i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynghylch opsiynau'n ymwneud â'u gofal.

S7.3. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r Rhaglen Cleifion Arbenigol er mwyn galluogi pobl i reoli eu gofal eu hunain yn rhagweithiol. Mae llinell recriwtio wedi'i sefydlu

hefyd i recriwtio tiwtoriaid a gwirfoddolwyr ar gyfer y Rhaglen Cleifion Arbenigol Genedlaethol.

S7.4. Caiff y galwadau a dderbynnir eu gwerthuso'n barhaus er mwyn adolygu priodoldeb a defnyddioldeb yr wybodaeth a ddarperir. Os canfyddir bod gwybodaeth wael wedi'i chynnig, bydd y sefydliad yn dysgu o hynny ac yn mynd ati i ailhyfforddi. Bydd y staff i gyd yn cael adolygiadau rheolaidd o'u perfformiad sy'n cynnwys yr asesiad o briodoldeb canlyniadau hunan-ofal.

S7.5. Cyflwynwyd sawl enghraifft o gleifion yn gweithio mewn partneriaeth â staff i'w grymuso i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal.

S7.6. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 8
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- *a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- *b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- *c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac*
- *ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn gallu dangos ei fod wedi gweithredu strategaethau a pholisïau, megis Hanfodion Gofal, ar draws y corff i sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth a'r staff yn cael eu trin ag urddas a pharch. Hefyd mae hyfforddiant ar gael i'r staff ar ystod o bynciau a bydd y staff yn cael adborth ynghylch unrhyw gwynion y gallant fod ynghlwm wrthynt er mwyn sicrhau bod unigolion yn dysgu.

S8.3. Cynhelir cyfarfodydd fforwm-agored misol i'r staff gael codi unrhyw faterion neu bryderon gydag aelodau tîm yr uwch reolwyr. Bydd staff sy'n gadael y corff yn cael cyfweliad cyn iddynt adael.

S8.4. Dim ond i rannu gwybodaeth am gleifion y mae'n rhaid i Alw Iechyd Cymru gael caniatâd. Mae Canllawiau Cyfeirio Amddiffyn Plant Galw Iechyd Cymru yn ymdrin yn benodol â datgelu gwybodaeth.

S8.5. Cyflwynwyd ystod o enghreifftiau i brofi eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion monitro, yn ogystal ag enghreifftiau o welliannau. Gallwn gytuno ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi unwaith eto fod angen rhoi sylw penodol i integreiddio polisïau a gweithdrefnau â rhai WAST gan sicrhau na chollir yr arferion da sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Safon 9
Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys; a

b. bod gofynion maethol, diwylliannol a chlinigol personol y cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.

S9.1. Nodwyd nad oedd y safon hon yn gymwys i Alw Iechyd Cymru.

Safon 10
Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S10.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn ystod y cyfnod asesu a chydymffurfiai â'r ystod lawn o bolisïau a gweithdrefnau oedd yn ymwneud â'r safon hon. Roedd Galw Iechyd Cymru yn cyfrannu at ddatblygiad cynlluniau cydraddoldeb hiliol ac anabledd yr Ymddiriedolaeth ac roedd wedi rhagwirio'i bolisïau a'i weithdrefnau yn unol â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio). Mae hefyd wedi cychwyn asesiadau o effaith ei bolisïau risg uchel. Bydd y Bwrdd yn cael adborth mewn sawl ffordd – gan grŵp Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd, trwy unrhyw ganmoliaeth neu gwynion, a thrwy arolygon o fodlonrwydd cleifion.

S10.3. Bydd Galw Iechyd Cymru'n darparu ystod gynhwysfawr o hyfforddiant sefydlu a gloywi ar gyfer y staff a chaiff yr holl sesiynau eu gwerthuso. Cyflwynwyd enghreifftiau o ddatblygiadau i fodloni anghenion grwpiau penodol.

S10.4. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y tair lefel.

4.2. Canlyniadau Clinigol

Safon 11
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;
c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddaru eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; ac
ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

S11.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Mae strategaethau, polisïau, grwpiau a threfniadau'n bodoli sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac archwiliadau clinigol, arferion seiliedig ar dystiolaeth, a goruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol. Mae'r Meddalwedd Cyfrifiadurol yn cynnwys offeryn blaenoriaethu ac mae'r system frysbennu'n cydymffurfio ag arweiniad a safonau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE). Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer llywodraethu system gymorth y penderfyniadau clinigol ac mae trefniadau priodol hefyd yn bodoli i fonitro ac adolygu hyn. Mae proses recriwtio a dethol gadarn yn bodoli sy'n cynnwys gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a gwiriadau o gofrestriadau proffesiynol.

S11.3. Yn gyrru'r rhaglen archwilio clinigol mae adroddiadau ar berfformiad clinigol, adroddiadau ar ddigwyddiadau anffafriol, cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol a themâu o adroddiadau ac adborth misol. Cynhelir ail archwiliad hefyd i amlygu gwelliannau ac i ddangos bod gwersi wedi'u dysgu. Mae cyfleoedd hyfforddi clinigol priodol ar gael, a'r rheini'n cael eu gwerthuso.

S11.4. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol gan fod yna dystiolaeth fod yr agenda strategol yn cael ei datblygu a pheth tystiolaeth o wella

parhaus. Cytunwn hefyd fod y corff yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 12
Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- *a. yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- *b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- *c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol cleifion; ac*
- *ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S12.2. Nid oedd tystiolaeth fod y corff wrthi'n symud agenda strategol glir yn ei blaen, ond roedd peth tystiolaeth fod Galw Iechyd Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r prif faterion. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o weithio effeithiol mewn partneriaeth â chyrff eraill gan gynnwys BILlau, adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

S12.3. Darparwyd tystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol ac roedd tystiolaeth fod gwybodaeth o adolygiadau blynyddol yn cael ei rhoi i randdeiliaid. Cyfeiriwyd hefyd at y gwahanol fathau o wybodaeth sydd ar gael.

S12.4. Cyflwynwyd peth tystiolaeth i ddangos bod gwelliannau wedi'u gwneud o ganlyniad i gwynion a sylwadau cadarnhaol. Felly credwn fod Galw Iechyd Cymru yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 13
Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S13.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe adeg yr asesiad hwn ac felly gweithiai o fewn fframwaith Strategaeth Ymchwil a Datblygu yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ddigonol yn y cyflwyniad i ddangos bod y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael ei gymhwyso a bod y Bwrdd Rheoli yn ymwneud ag ef.

S13.3. Roedd peth tystiolaeth fod unigolion o fewn Galw Iechyd Cymru wedi'u henwi i ymwneud ag Ymchwil a Datblygu, ond prin oedd y dystiolaeth o ymchwil ac eithrio ceisiadau i newid meddalwedd a chyfranogiad mewn Prosiect Ymchwil Enghreifftiol dan arweiniad y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd. Yn dilyn y trosglwyddo i WAST, bydd yn rhaid ceisio cyfleoedd i symud yr agenda llywodraethu ymchwil yn ei blaen.

S13.4. Yn ôl ein hasesiad ni, mae'r corff yn **Ymateb** ar y tair lefel.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14
Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio'r arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn gallu dangos bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r safon hon. Roedd strwythurau, polisïau a gweithdrefnau priodol ar gael trwy drefniadau Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. Roedd Galw Iechyd Cymru hefyd wedi datblygu ei weithdrefnau ei hun ar gyfer materion penodol i waith Galw Iechyd Cymru. Bydd angen adolygu'r trefniadau hyn ar ôl trosgwyddo i WAST. Nid oes tystiolaeth fod fframwaith sicrwydd ar gael sy'n cysylltu risgiau ag amcanion strategol.

S14.3. Mae yna dystiolaeth fod staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar iechyd a diogelwch a'u bod yn cael hyfforddiant priodol. Rhoddir gwybod am ddigwyddiadau anffafriol a materion diogelwch cleifion ac eir ati i ymchwilio iddynt. Serch hynny, nid oes tystiolaeth fod bylchau yn cael eu cau. Mae gan Alw Iechyd Cymru Fforwm Partneriaeth a Fforwm Agored sy'n rhoi cyfle i staff fynegi pryderon neu godi materion ynghylch diogelwch galwyr a staff yn rheolaidd.

S14.4. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau i ddangos bod Galw Iechyd Cymru yn ymgysylltu â galwyr, ynghyd ag enghreifftiau o gyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth yn natblygiad rhaglenni gwella ansawdd. Darparwyd tystiolaeth o werthuso a gwella parhaus ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.5. Yn ôl ein hasesiad ni, mae'r corff yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 15
Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;
b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;
c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac
ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

S15.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2. Gan fod Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, polisi cwynion yr Ymddiriedolaeth a ddefnyddid gan Alw Iechyd Cymru. I ategu'r polisi hwn roedd gan Alw Iechyd Cymru weithdrefn leol a oedd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli. Bydd y Bwrdd Rheoli'n cael gwybodaeth am gwynion yn rheolaidd.

S15.3. Mae tipyn o wybodaeth ar gael trwy'r wefan am y weithdrefn gwynion ynghyd â gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer ymdrin â chwynion a'r camau y dylid eu cymryd. Nid oedd neb wedi gwneud cais i gŵyn gael ei hystyried yn annibynnol ac nid oedd neb wedi anfon cwyn at yr Ombwdsmon.

S15.4. Darperir hyfforddiant priodol ar gyfer y staff adeg eu sefydlu a hyfforddiant gloywi pan fydd angen. Roedd tystiolaeth fod systemau da a chlir wedi'u sefydlu i ymdrin â chwynion ffurfiol ac anffurfiol. Rhoddwyd enghreifftiau o newidiadau a wnaethpwyd i'r gwasanaeth yn sgil cwynion yn ogystal ag enghreifftiau o'r modd y caiff defnyddwyr y gwasanaeth wybod am newidiadau o'r fath.

S15.5. Roedd Galw Iechyd Cymru yn gallu dangos bod ganddo gynlluniau da ar waith ar draws y corff, ac felly cytunwn â'r asesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y tair lefel.

Safon 16
Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y mae'n rhaid eu hadrodd, a dysgu ganddynt;

b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;

c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac

ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.

S16.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S16.2. Mae Galw Iechyd Cymru wedi rhoi strwythurau, prosesau a dulliau adrodd cadarn ar waith er mwyn nodi digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion, a dysgu ganddynt. Mae Galw Iechyd Cymru wedi datblygu ei weithdrefn ei hun ar gyfer digwyddiadau anffafriol ac mae'r weithdrefn yn nodi rolau a chyfrifoldebau o ran ei chysylltu â phroses gyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Caiff yr hyn a ddysgir o ganlyniad i ddigwyddiadau ei gyfleu i'r rhai sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol a gwella ansawdd. Rhoddir gwybod i'r Bwrdd Rheoli am newidiadau a wneir o ganlyniad i ddigwyddiadau, a sicrheir bod y staff yn gwybod amdanynt hefyd.

S16.3. Caiff y staff hyfforddiant priodol ar nodi ac adrodd digwyddiadau adeg eu sefydlu, a darperir hyfforddiant gloywi pan fydd angen. Hefyd bydd y tîm hyfforddi yn rhoi cyngor yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau, a darperir hyfforddiant pellach lle y bo'n briodol. Cynhelir 'Fforwm Agored' fel y gellir trafod digwyddiadau â chynrychiolwyr o bob maes.

S16.4. Darparwyd tystiolaeth i ddangos bod rhybuddion diogelwch yn cael eu hanfon at staff, ond nid oes tystiolaeth ar gael o archwiliadau i ddangos eu bod yn cael sylw'n brydlon.

S16.5. Mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i gyfleu gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol ar ddigwyddiadau i'r rhai sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol a gwella ansawdd adeg y trosglwyddo i WAST.

S16.6 Cytunwn fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phrif faterion y safon hon, ond nid oes tystiolaeth o werthuso a gwella parhaus. Felly, mae AGIC o'r farn mai **Datblygu** y mae'r corff ar y tair lefel.

Safon 17
Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S17.2. Mae gan Alw Iechyd Cymru strategaethau, polisïau a gweithdrefnau priodol i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Mae grŵp amddiffyn plant wedi'i sefydlu a bwriedir penodi proffesiynolyn a enwir ar lefel strategol gan fod y corff yn colli Nyrs a Enwir oherwydd y trosglwyddo i WAST.

S17.3. Mae gan y corff strategaeth hyfforddiant amddiffyn plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol a darperir hyfforddiant priodol gan ystod o sefydliadau. Darperir hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed; mae'r hyfforddiant hwnnw'n ystyried yr hyn a ddysgwyd o ganlyniad i adolygiadau ac yn cydymffurfio â'r canllawiau penodol a ddilynir gan y pedwar fforwm amddiffyn oedolion. Defnyddir ffurflen gyfeirio Galw Iechyd Cymru i gyfeirio pryderon Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) at y gwasanaethau cymdeithasol. Mae gwiriadau CRB / Deddf Amddiffyn Plant (POCA) priodol wedi'u cyflawni mewn perthynas â'r staff ac mae'r gwiriadau hyn wedi'u harchwilio gan Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn rhan o'i gweithgarwch archwilio. Mae gweithdrefnau cadarnhaol ar waith i ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

S17.4. Mae yna dystiolaeth fod y corff wedi cymryd camau cadarnhaol i wella'i waith o ran amddiffyn plant, a bydd angen defnyddio'r profiad i ddatblygu prosesau tebyg yn y dyfodol mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed.

S17.5. Cytunwn fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phrif faterion y safon hon, ond nid oes tystiolaeth o werthuso a gwella parhaus. Felly, credwn mai **Datblygu** y mae'r corff ar y tair lefel.

Safon 18
Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S18.2. Mae gan Alw Iechyd Cymru strategaethau, polisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i reoli sefyllfaoedd argyfyngus; mae'r rhain ar gael ar y fewnrwyd ac ar ffurf 'copi caled' yn holl safleoedd Galw Iechyd Cymru. Mae'r cynlluniau wedi'u rhoi ar brawf sawl gwaith, a hynny'n llwyddiannus. Darparwyd tystiolaeth o welliannau a wnaed o ganlyniad i'r profion.

S18.3. Mae angen sicrhau bod cynlluniau presennol Galw Iechyd Cymru yn cael eu mabwysiadu gan WAST a'u bod hefyd yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau parhad busnes yn dilyn y trosglwyddo.

S18.4. Cytunwn fod cynlluniau da ar waith a bod yna dystiolaeth o wella parhaus. Felly, cytunwn fod y corff yn **Ymarfer** ar y tair lefel.

Safon 19
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;
b. bod dyfeisiadau meddygol amldro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;

c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; ac

ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

S19.1. Nid oedd y safon hon yn gymwys i Alw Iechyd Cymru.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio'r arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S20.2. Roedd Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac felly roedd yn cydymffurfio â strategaethau, polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol (AD) yr Ymddiriedolaeth. Byddai Rheolwr AD Galw Iechyd Cymru yn mynychu cyfarfodydd AD yr Ymddiriedolaeth a chyflwynir adroddiadau AD misol yn rheolaidd i'r Bwrdd.

S20.3. Caiff gwerthusiadau blynyddol ac adolygiadau o berfformiad eu cynnal a chaiff cydymffurfiaeth y corff â'r gofynion hyn ei monitro a'i hadrodd i'r Bwrdd Rheoli. Cynhyrchodd Galw Iechyd Cymru gynllun gweithredu ar ôl cynnal arolwg ymhlith y staff i gael eu syniadau ynglŷn â gwella'r gwasanaeth. Caiff staff sy'n gadael y corff gyfweliad cyn iddynt adael ac mae cynllun ar waith i gasglu awgrymiadau'r staff.

S20.4. Cytunwn fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion a chytunwn â'r asesiad fod y corff yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;

b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac
c. yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.

S21.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S21.2. Roedd Galw Iechyd Cymru'n gweithredu polisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac mae ganddynt hefyd drefniadau lleol clir ar ffurf gweithdrefn cofrestru proffesiynolion. Mae hyn yn amlinellu cyfrifoldeb Galw Iechyd Cymru i wirio cofrestriadau drwy fonitro a chasglu gwybodaeth amdanynt ac i ddelio â'r rhai nad ydynt wedi cofrestru. Cynhelir gwiriadau CRB hefyd wrth recriwtio.

S21.3. Mae polisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth GIG Abertawe o ran grwpiau lleiafrifol ac amrywiaeth ar waith yng Ngalw Iechyd Cymru.

S21.4. Roedd tystiolaeth fod rhai camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r safon hon ond nid oedd tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff nac unrhyw gyfeiriad at sut y bwriedir ymdrin â hyn ar ôl y trosglwyddo i WAST. Felly, yn ôl ein hasesiad ni mae Galw Iechyd Cymru yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymateb** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 22
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:
a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;
b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac
c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

S22.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S22.2. Mae gan Alw Iechyd Cymru strategaethau a pholisïau i fonitro ac i hybu datblygiad proffesiynol a phersonol y staff. Bydd yr holl staff yn cael cyfnod cynefino dwys ac yna gyfnod o fentora nes bod ganddynt y medrau gofynnol. Mae yna raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus, sesiynau hyfforddi 'ochr yn ochr' misol, yn ogystal â rhaglen 'hyfforddiant gloywi' flynyddol, sy'n darparu hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl staff y rheng flaen. Mae gan y rheolwyr system wybodaeth sy'n storio cofnodion hyfforddiant.

S22.3. Bydd yr holl staff yn cael gwerthusiad blynyddol a diweddariadau PDP bob chwe mis yn unol â gofynion y Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau. Hefyd cynhelir sesiynau un-wrth-un misol gan arweinwyr y timau i fonitro perfformiad unigolion. Caiff yr holl raglenni hyfforddi eu llunio i gyd-fynd â'r lefelau Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau sy'n briodol ar gyfer pob grŵp staff.

S22.4. Mae Galw Iechyd Cymru yn gweithio gyda WAST a Phrifysgol Abertawe i ddatblygu ar y cyd gwricwlwm ar gyfer trafod galwadau a brysbennu, ac ar gyfer parafeddygon, a fydd yn helpu staff i ymgymryd â swyddogaethau newydd yn y corff newydd.

S22.5. Darparwyd tystiolaeth i ddangos bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd o ganlyniad i ddigwyddiadau.

S22.6. Roedd yna dystiolaeth fod yr agenda strategol yn cael ei datblygu a pheth tystiolaeth o wella parhaus. Mae tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff, ond prin yw'r dystiolaeth o werthuso neu feincnodi. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond credwn ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

Safon 23
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan

b. rhaglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.

S23.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2. Fe'n cyfeiriwyd gan Alw Iechyd Cymru at gyflwyniad a pholisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ar gyfer y safon hon gan fod y corff yn is-adran o'r Ymddiriedolaeth honno. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth na thystiolaeth i ddangos sut y byddai Galw Iechyd Cymru yn cymhwyso'r polisïau hyn.

S23.3. Ar sail yr hyn a gyflwynwyd, credwn fod yna gydnabyddiaeth o'r materion ond dim tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff. Felly, credwn mai **Ymateb** y mae'r corff ar y tair lefel.

Safon 24
Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

a. fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a
b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.

S24.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S24.2. Cyflwynwyd ystod o enghreifftiau i ddangos bod y corff wedi gweithio mewn partneriaeth â'r sector statudol a'r sector gwirfoddol gan gynnwys Comisiwn Iechyd Cymru, comisiynwyr y gwasanaethau YC tu allan i oriau, Sefydliad Cenedlaethol Pobl Fyddar, Childline, y BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

S24.3. Mae cynlluniau recriwtio ar waith i lenwi swyddi gwag ac i hybu datblygiad gwasanaethau newydd. Bwriedir penodi nyrsys arbenigol i ymdrin ag amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, a byddant yn cydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn rhoi cyngor a hyfforddiant.

S24.4. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau o fentrau ar y cyd, gan gynnwys:

- Rhoi cymorth i Ymddiriedolaethau aciwt gyda Damweiniau ac Achosion Brys, gan leihau'r galw am wybodaeth a chyngor gan adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
- Gweithio gyda fferyllfeydd cymunedol i sicrhau bod galwyr yn cael gwybodaeth.
- Trafod galwadau Ymarferwyr Cyffredinol y tu allan i oriau a brysbennu galwadau.
- Gweithio gyda BILI er mwyn datblygu prosesau i gyfeirio pobl yn uniongyrchol at nyrsys ardal.
- Gweithio gyda gwasanaeth YC tu allan i oriau i lunio nodiadau arbennig ar gyfer cleifion gofal lliniarol er mwyn gwella cyfathrebu.
- Gweithio gyda rhai practisau YC er mwyn rhoi cymorth i dimau rheoli clefydon cronig.

S24.5. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o welliannau ym mhrofiad y defnyddiwr o ganlyniad i newidiadau yn y prosesau gweithio.

S24.6. Credwn fod yr agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro a bod yna dystiolaeth o wella parhaus. Cytunwn felly â'r asesiad fod y corff yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ond credwn fod angen tystiolaeth o werthuso a meincnodi cyn y gellir cadarnhau ei fod yn Ymarfer ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol. O ganlyniad credwn fod y corff yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 25
Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S25.2. Cyflwynwyd tystiolaeth i ddangos bod y Bwrdd Rheoli yn datblygu ac yn monitro'r agenda strategol. Mae strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) ar waith, yn ogystal ag asesiad risg TG. Mae cynrychiolydd TG ar y Bwrdd Rheoli a bydd y corff yn cynnal cyfarfodydd cynllunio galluedd wythnosol – mae trafod effeithiolrwydd y defnydd a wneir o Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg o fewn y corff yn eitem sefydlog ar yr agenda.

S25.3. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â chyflenwyr trydydd parti gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg er mwyn adolygu a rhoi gwybod iddynt am ansawdd y gwasanaeth a'r cymorth a ddarperir. Bydd yr adran Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn cyhoeddi ystadegau misol i roi darlun o'i pherfformiad.

S25.4. Darperir ystod o gyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer y staff ac roedd digon o dystiolaeth fod systemau ar waith i wirio cysondeb a chywirdeb gwybodaeth.

S25.5. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr, ond credwn ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol gan fod angen tystiolaeth o feincnodi neu werthuso.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

a. bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddaru'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a

b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

S26.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol a'i fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S26.2. Mae Galw Iechyd Cymru wedi bod yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ac wedi cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth. Mae gan Alw Iechyd Cymru ei weithdrefn ei hun ar gyfer 'Cofnodi Mynediad at Ofal Iechyd', sy'n adlewyrchu'r math o gofnod a gedwir gan y gwasanaeth.

S26.3. Bydd y staff yn cael hyfforddiant priodol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd cofnodion da. Ymdrinnir â chamgymeriadau mewn cofnodion clinigol drwy'r broses arferol ar gyfer delio â digwyddiadau anffafriol.

S26.4. Cytunwn â'r asesiad fod y corff yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol a'i fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr, gan fod y Bwrdd yn cydnabod y prif faterion ac wedi nodi ffyrdd posibl o fynd i'r afael â hwy er nad oes yna gyfeiriad strategol.

Safon 27
Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da yn eu lle sydd:

- *a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- *b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- *c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd, a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;*
- *ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; a*
- *d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S27.2. Gan fod Galw Iechyd Cymru yn is-adran o Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, gweithiai o fewn fframwaith yr Ymddiriedolaeth o strwythurau, polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, clinigol ac ariannol. Fodd bynnag roedd Galw Iechyd Cymru wedi sefydlu sianelau adrodd a chyfathrebu dwyffordd priodol.

S27.3. Bydd aelod uwch o dîm cyllid yr Ymddiriedolaeth yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ac yn cyflwyno adroddiadau misol ar y sefyllfa ariannol. Caiff materion ariannol eu monitro drwy gerdyn sgorio cytbwys Galw Iechyd Cymru. Fodd bynnag, nid oedd sôn am fframwaith sicrwydd sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau busnes.

S27.4. Mae gan Alw Iechyd Cymru nifer o weithdrefnau sy'n hybu uniondeb, atebolrwydd, a'r egwyddor o fod yn agored; maent ar waith trwy'r corff ac ar bob lefel. Darperir hyfforddiant priodol ar gyfer y staff. Mae gan y corff strategaeth rheoli risg sy'n cael ei monitro ac sy'n tanategu strategaeth yr Ymddiriedolaeth.

S27.5. Credwn fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion a bod yna dystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff. Felly, credwn fod y corff yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 28
Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;
b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac
c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.

S28.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a'i fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S28.2. Mae gan Alw Iechyd Cymru, trwy Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, strategaethau a pholisïau priodol ond mae hefyd wedi datblygu a gweithredu gweithdrefnau ychwanegol sy'n briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Alw Iechyd Cymru. Mae strwythur pendant o fewn y tîm llywodraethu clinigol yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau clir.

S28.3. Sicrheir bod yr holl staff yn ymwybodol o lywodraethu clinigol ac yn cael hyfforddiant priodol, a chaiff yr holl staff eu goruchwylio gan staff clinigol. Mae gan Alw Iechyd Cymru Dîm Gwella Ansawdd â chynrychiolwyr o'r holl dimau staff sy'n cynnal archwiliadau clinigol.

S28.4. Darparwyd enghreifftiau o welliannau a welwyd yn y gofal ar gyfer cleifion o ganlyniad i ddefnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol.

S28.5. Credwn fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion ac felly credwn fod y corff yn **Datblygu** ar y tair lefel.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29
Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a

b. drwy sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.

S29.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S29.2. Bydd Galw Iechyd Cymru yn cydweithredu â sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol er mwyn nodi anghenion ac anghydraddoldebau iechyd. Mae ganddo gysylltiadau da hefyd â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Canolfan Iechyd Cymru a Chyngor Defnyddwyr Cymru fel y gellir rhannu cyngor a gwybodaeth am iechyd y cyhoedd.

S29.3. Galw Iechyd Cymru yw'r darparwr a ddewiswyd i arwain y gwasanaethau llinell gymorth cenedlaethol a lleol ar gyfer rhybuddion neu fygythion iechyd.

S29.4. Cytunwn fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion ac mae tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff. Cytunwn ag asesiad y corff ei fod yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 30
Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac yn bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; a

b. yn ystyried yr holl bolisïau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

S30.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr a'i fod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol.

S30.2. Mae tystiolaeth fod Galw Iechyd Cymru yn darparu ystod o weithgareddau mewn perthynas ag atal clefydon a hybu iechyd. Maent yn cynnwys:

- Llinell gymorth reng flaen ar gyfer rhybuddion neu fygythion iechyd lleol neu genedlaethol.
- Gwasanaeth llinell gymorth ar gyfer yr ymarfer 'Edrych yn ôl: Hepatitis C', a'r bygythiad E-coli.
- Partner strategol yn yr ymgyrch flynyddol 'Cadw'n Iach y Gaeaf Hwn'.
- Yr Wythnos Wenu Genedlaethol.

S30.3. Caiff yr holl ddigwyddiadau hybu iechyd eu gwerthuso a gofynnir am adborth trwy gyfleuster arbennig. Anogir y cyhoedd i roi sylwadau ar y corff ac ar eu profiadau o'r gwasanaethau ffôn a gwasanaethau'r wefan.

S30.4. Gan fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion, credwn fod **Datblygu** yn asesiad priodol ar gyfer y lefel Gorfforaethol a'r lefel Weithredol/ Canlyniadau Clinigol. Gan fod tystiolaeth o werthuso ar lefel Profiad y Defnyddiwr gellir dweud bod y corff yn **Ymarfer** ar y lefel honno.

Safon 31
Mae cyrff gofal iechyd:

a. yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;
b. yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;
c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac
ch. yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32
Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Nododd Galw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, ar y lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S32.2. Dim ond cyfeirio at gyflwyniad Ymddiriedolaeth GIG Abertawe a wnaethpwyd mewn perthynas â'r safon hon. Mae'n bwysig bod Galw Iechyd Cymru fel rhan o WAST yn mynd ati gyda WAST i ddatblygu un dull cyffredin o fodloni'r safon.

S32.3. Yn ôl ein hasesiad ni, mae Galw Iechyd Cymru yn **Ymwybodol** o'r safon hon.

Ceir crynodeb yn Atodiad 2 o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer y 32 safon fel y'u haseswyd gan Alw Iechyd Cymru yn ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn proses o brofi a gwerthuso.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Bydd yn rhaid i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y corff y mae Galw Iechyd Cymru yn rhan ohono, gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd angen i'r cynllun nodi'r camau y bydd angen eu cymryd yn dilyn yr adroddiad hwn ac adroddiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ei hun. Bydd yn rhaid i Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru gymeradwyo'r cynllun, a bydd yn monitro'r broses o'i weithredu yn rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer y GIG yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

5.2. Dros y misoedd nesaf bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r offeryn asesu ar gyfer y dyfodol ac i alinio proses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Bydd adroddiad Cymru gyfan yn cael ei gyhoeddi yn Nhachwedd 2007. Bydd yr adroddiad, ar sail canfyddiadau adroddiadau unigol, yn cynnig trosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yn nodi'r prif themâu a'r risgiau a ddaeth i'r amlwg drwy broses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Atodiad 1

Diffiniadau o'r Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Ymarfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion sydd i gael sylw, ond ni all ddangos bod penderfyniadau wedi'u gwneud na chamau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y prif faterion ac wedi nodi opsiynau, a'r rheini wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r prif faterion trwy ddatblygu cynlluniau strategol, a cheir tystiolaeth o arferion da ar draws y corff.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd, a cheir tystiolaeth sylweddol o wella parhaus ar draws y corff.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith sy'n cael eu rhannu ag eraill o fewn a thu hwnt i'r corff, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.
Gweithredol	Mae yna ymwybyddiaeth o'r materion sydd i gael sylw, ond nid oes dulliau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â hwy.	Mae yna gydnabyddiaeth o'r materion sydd i gael sylw, ac mae ystod o opsiynau wedi'u nodi i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r prif faterion, a cheir tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y corff.	Mae cynlluniau da ar waith trwy'r corff sy'n rhoi sylw i'r prif faterion, a cheir tystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at wella parhaus.	Mae yna dystiolaeth o arferion arloesol, sy'n cael eu rhannu ag eraill o fewn a thu hwnt i'r corff. Maent yn parhau i ddatblygu eu dulliau er mwyn sicrhau gwelliant sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn yn wael yn gyffredinol, ac nid oes dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Nid yw profiad yr unigolyn yn dda yn gyffredinol, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Mae profiad yr unigolyn yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y corff.	Mae profiad yr unigolyn yn dda yn gyffredinol ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn yn ardderchog yn gyffredinol ac mae gan y gwasanaeth dystiolaeth ddiamwys o arferion da, y gellir eu rhannu.

Atodiad 2

Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

Allwedd

A	Arwain
Y	Ymarfer
D	Datblygu
Ytb	Ymateb
Ybl	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	← →	**D**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**D**	← →	**D**
Profiad y Defnyddiwr	**D**	← →	**D**

Safon 2

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	↓	**D**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**Y**	↓	**D**
Profiad y Defnyddiwr	**Y**	↓	**D**

Safon 3

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	← →	**Y**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**Y**	← →	**Y**
Profiad y Defnyddiwr	**D**	← →	**D**

Safon 4

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	← →	**D**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**D**	← →	**D**
Profiad y Defnyddiwr	**D**	← →	**D**

Safon 5

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	← →	**D**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**D**	← →	**D**
Profiad y Defnyddiwr	**D**	← →	**D**

Safon 6

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	← →	**Y**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**Y**	← →	**Y**
Profiad y Defnyddiwr	**Y**	← →	**Y**

Safon 7

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	← →	**Y**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**Y**	← →	**Y**
Profiad y Defnyddiwr	**D**	← →	**D**

Safon 8

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	← →	**Y**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**Y**	← →	**Y**
Profiad y Defnyddiwr	**Y**	↓	**D**

Safon 9

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Nid yw'n gymwys		
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Nid yw'n gymwys		
Profiad y Defnyddiwr	Nid yw'n gymwys		

Safon 10

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↔	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↔	Y
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 11

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↔	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 12

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 13

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Ytb	↔	Ytb
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	D	↓	Ytb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Ytb

Safon 14

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 15

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↔	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↔	Y
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 16

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 17

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 18

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↔	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↔	Y
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 19

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Nid yw'n gymwys		
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Nid yw'n gymwys		
Profiad y Defnyddiwr	Nid yw'n gymwys		

Safon 20

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	← →	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	D	← →	D
Profiad y Defnyddiwr	D	← →	D

Safon 21

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	Ytb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Ytb

Safon 22

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	← →	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	← →	Y

Safon 23

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	Ytb
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	Ytb
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	Ytb

Safon 24

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	← →	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	← →	D

Safon 25

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↔	Y
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 26

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Ytb	↔	Ytb
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 27

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 28

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Y	↓	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 29

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	↓	**D**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**D**	←→	**D**
Profiad y Defnyddiwr	**Y**	←→	**Y**

Safon 31

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Nid yw'n gymwys		
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	Nid yw'n gymwys		
Profiad y Defnyddiwr	Nid yw'n gymwys		

Safon 32

	Sgôr yr Hunanasesiad	Gwahan-iaeth (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**Y**	↓	**Ybl**
Gweithredol/ Canlyniadau Clinigol	**Y**	↓	**Ybl**
Profiad y Defnyddiwr	**Y**	↓	**Ybl**

Atodiad 3

Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Lefel Gorfforaethol, y Lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr






Sgorau Aeddfedrwydd y Lefel Weithredol/Canlyniadau Clinigol
Ymwybodol
Ymateb
Datblygu
Ymarfer
Arwain


Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr
Ymwybodol
Ymateb
Datblygu
Ymarfer
Arwain


Cytuno/Anghytuno â Sgôr yr Ymddiriedolaeth
0%
39%
61%
AGIC yn cytuno â sgôr yr Ymddiriedolaeth
AGIC yn anghytuno - yn rhoi lefel is i'r Ymddiriedolaeth
AGIC yn anghytuno - yn rhoi lefel uwch i'r Ymddiriedolaeth

Atodiad 4

Rhestr Termau

archwiliad clinigol – proffesiynolion iechyd yn gwerthuso ac yn mesur i ba raddau y maent yn bodloni'r safonau sydd wedi'u pennu ar gyfer eu gwasanaeth.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) – awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydgysylltu ymdrechion drwy'r wlad i adrodd am gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion ac i ddysgu o'r camgymeriadau a'r problemau hynny.

Bwrdd Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sy'n gyfrifol drwy statud am wneud y penderfyniadau mwyaf o ran strategaeth a pholisi ymhob Ymddiriedolaeth GIG. Bydd fel arfer yn cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, a Phrif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) – cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

cerdyn sgorio cytbwys – system reoli sy'n galluogi corff i fod yn glir ynghylch ei weledigaeth a'i strategaeth, a'u rhoi ar waith. Mae'n helpu cyrff i wella'u perfformiad yn barhaus.

Cronfa Risg Cymru – cynllun hunansicrhau ar gyfer holl gyrff iechyd Cymru. Mae hefyd yn hybu diogelwch cleifion a staff drwy annog a helpu cyrff i reoli ac asesu risgiau'n dda, a hynny drwy fesur eu perfformiad yn erbyn safonau penodol.

Cynghorau Iechyd Cymunedol – sefydliadau cymunedol, nid-er-elw sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi. Sefydlwyd y Cynghorau yn 1992 i gryfhau cyfranogiad y gymuned yn y broses o bennu polisïau cenedlaethol a lleol a fydd yn effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd y gofal hwnnw. Y Cynghorau hyn yw llais y cyhoedd o fewn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i gael eu cynnwys mewn ymgynghoriadau ar newidiadau i wasanaethau iechyd yn eu hardaloedd.

Cynllun Oes – mae'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae strategaeth 10 mlynedd wedi'i llunio i wireddu'r weledigaeth honno. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para tua thair blynedd. Dyma'r fframweithiau: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflwyno Safonau Uwch; a Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o'r Radd Flaenaf.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd – strategaeth a luniwyd i sicrhau bod safbwyntiau a barn y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol – datganiad ynghylch trefniadau cyffredinol y corff GIG i gael sicrwydd bod y prif risgiau o fewn y corff yn cael eu rheoli'n effeithiol.

diogelu data – mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymdrinnir â'r cyfrifoldebau hyn gan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a luniwyd i ddiogelu data ar unigolion.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol – canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ynglŷn â sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydon ac afiechydon.

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n rhoi cyngor i'r Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar reolaeth strategol meddyginiaethau a'u rhagnodi.

Gwarchodwr Caldicott – uwch-glinigwr ym mhob un o gyrff y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott. Diben yr adroddiad hwnnw oedd adolygu'r defnydd a wneir o wybodaeth am gleifion a'r modd y'i diogelir.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru – mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus er mwyn: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn yn erbyn clefydon a bygythion iechyd presennol a newydd, a rhai sy'n dod i'r amlwg; a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

llwybr gofal – cyfres o gamau a thriniaethau pendant y bwriedir iddynt fodloni anghenion penodol pob claf.

llywodraethu clinigol – fframwaith sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar gyrff y GIG am barhau i wella ansawdd eu gwasanaethau ac am gadw safon y gofal yn uchel.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrsio Brenhinol – rhaglen sy'n neilltuo amser i nyrsys arsylwi ar ofal a'r broses o ddarparu gwasanaethau, a chyfweld â chleifion ynglŷn â'r broses o ddarparu gofal. Y nod yw galluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio'u galluoedd fel arweinwyr, gwella sgiliau trefnu a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn tîm, a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

rheoli heintiau – cyfres o weithdrefnau i atal ymlediad heintiau, sy'n cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer di-haint, *etc*.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gwell gofal ar gyfer cleifion.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o Safonau Gofal Iechyd a gyhoeddwyd ym Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu'r GIG a sefydliadau sy'n bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon a safonol ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbennig sy'n llunio canllawiau ar gyfer y GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio drwy gynnig mynediad ehangach at wybodaeth cofnodion troseddol. Bydd y CRB yn helpu cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a all fod yn anaddas ar gyfer mathau penodol o waith, yn enwedig gwaith lle mae cyswllt â phlant neu aelodau eraill o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) – cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Bydd Ymddiriedolaethau'n cyflogi ystod lawn o broffesiynolion gofal iechyd gan gynnwys meddygon, nyrsys, deietegwyr, ffisiotherapyddion, *etc*. Bydd ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol mewn ysbytai fel arfer. Bydd ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, yn y gymuned fel arfer, ee nyrsys ardal, meddygon traed, *etc*. Bydd ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau cymunedol ac aciwt o dan yr un rheolwyr.